

Rhif: WG27285



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Strategaeth Gwaith Ffordd a Stryd ar gyfer Cymru

Crynodeb o'r ymatebion

Mehefin 2016

Y Dull Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Ffordd a Gwaith Stryd yng Nghymru – crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ac ymateb Llywodraeth Cymru.

Cyflwyniad

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru yr ymgynghoriad hwn i geisio barn ar y Dull Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Ffordd a Gwaith Stryd yng Nghymru.

Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn ystod o gwestiynau ar ymyriadau amrywiol y gallai Llywodraeth Cymru eu gwneud i wella'r ffordd y caiff gwaith ffordd a gwaith stryd ei gynllunio a'i gyflawni yng Nghymru.

Nid yw Llywodraeth Cymru yn cynnig gwneud newidiadau i'r ddeddfwriaeth bresennol ar hyn o bryd, ond mae'n awyddus i weithio gydag ymgymerwyr ac awdurdodau priffyrdd drwy Bwyllgor Awdurdodau Priffyrdd a Chyfleustodau (PAPC) Cymru i wella'r ffordd y caiff gwaith ffordd a gwaith stryd ei reoli o fewn y fframwaith deddfwriaethol presennol. A hithau'n uniongyrchol gyfrifol am y rhwydwaith cefnffyrdd, gall Llywodraeth Cymru arwain y gwaith o fabwysiadu arferion gorau.

Roedd y cynigion hyn mewn pum maes allweddol;

- Cynllunio, cydlynu a chyflawni gwaith ffordd a gwaith stryd;
- Cyflenwi Prosiectau Mawr
- Cyfathrebu â'r Cyhoedd a Busnesau
- Sgiliau a Hyfforddiant;
- Diwylliant

Cyflwynwyd y cynigion hyn mewn ymateb i argymhellion o adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru yn 2011 ac, yn fwy diweddar, ymchwiliad Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn 2015.

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi sylwadau'r ymgynghoriad ac yn cynnig gwybodaeth am y camau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd mewn ymateb iddynt.

Cafodd Llywodraeth Cymru gyfanswm o 35 o ymatebion, sef:

Un ymateb ar ran Llywodraeth y DU, wyth awdurdod lleol, Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru, Asiant Cefnffyrdd De Cymru a JAG (Cyd-Grŵp Awdurdodau) a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn cynrychioli safbwyntiau awdurdodau priffyrdd. Chwe chwmni cyfleustodau, y Cyd-Grŵp Cenedlaethol Cyfleustodau (NJUG) a Chyd-Grŵp Cyfleustodau Cymru yn cynrychioli safbwyntiau ymgymerwyr statudol.

10 cynrychiolydd ar ran y diwydiant adeiladu, gwasanaethau brys, darparwyr hyfforddiant a darparwyr gwaith stryd.

Pedwar unigolyn.

Ceir crynodeb o'r ymatebion isod.

*Dylid nodi na wnaeth pob ymatebydd ymateb i bob cwestiwn ac felly nid yw'r tablau isod bob amser yn dangos cyfanswm o 35.

Crynodeb ac Ymateb y Llywodraeth

Gwella'r Dull o Gynllunio a Chydlynu Gwaith

Ymyriad 1: *Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad o'r holl Reoliadau a Chodau Ymarfer sydd mewn grym yn Lloegr ac yn datblygu rhaglen ar gyfer cyflwyno'r rheini a fyddai'n fuddiol i Gymru erbyn mis Ebrill 2016.*

	Effeithiol	Ddim yn effeithiol	Ddim yn gwybod
Awdurdodau priffyrdd a sefydliadau sy'n eu cynrychioli	9		2
Ymgymerydd statudol a sefydliadau sy'n eu cynrychioli	3		5
Partneriaid yn y diwydiant adeiladu a'r diwydiant gwaith stryd	9		
Unigolion	3		1

Crynodeb o'r sylwadau

Roedd cryn dipyn o gefnogaeth i'r ymyriad hwn ac roedd yr ymatebwyr yn cydnabod yr angen i adolygu deddfwriaeth i'w defnyddio yng Nghymru. Argymhellodd sawl ymatebydd fod angen deall y lefel o gydymffurfiaeth yng Nghymru, a pham nad yw'r rheoliadau hyn yn bodloni'r gofynion yng Nghymru, cyn gwneud unrhyw newidiadau. Dylid ymestyn unrhyw adolygiad i gynnwys adolygiad o Awdurdodau yn Lloegr a'r Alban ynghyd â'r gwersi a ddysgwyd.

Nododd sawl ymatebydd sy'n gweithio yng Nghymru ac yn Lloegr fod yn rhaid cydnabod materion trawsffiniol i gwmnïau sy'n gweithredu ym mhob ardal a'r goblygiadau i'r fanyleb dechnegol ar gyfer meddalwedd sy'n cefnogi systemau gweithredu gwaith stryd.

O ystyried y goblygiadau i gwmnïau ac awdurdodau sy'n gweithio yng Nghymru, teimlai'r ymatebwyr fod yn rhaid i unrhyw newidiadau i reoliadau gael eu hategu gan achos busnes a bod yn rhaid iddynt fod yn briodol i Gymru ac y byddai'n ddefnyddiol llunio rhestr o newidiadau er mwyn gallu cynllunio ar gyfer unrhyw newidiadau. Dywedodd un ymatebydd y byddai tynhau hysbysiadau cosb benodedig a gweithdrefnau hysbysu yn fuddiol o ran cau bylchau mewn deddfwriaeth neu godau ymarfer.

Nododd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr fod yn rhaid i bob darn o waith stryd ymddangos ar y gofrestr gwaith stryd er mwyn i unrhyw newidiadau gael eu gwneud yn y maes hwnnw.

Dywedodd un ymatebydd y dylid ystyried arloesi a buddsoddi mewn materion fel atal difrod hirdymor.

Y prif bryder a godwyd ynglŷn â'r mesur hwn oedd yr amserlenni arfaethedig ar gyfer unrhyw adolygiad.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr angen i adolygu'r lefel o gydymffurfiaeth a bydd yn sicrhau bod unrhyw adolygiad yn ystyried y DU gyfan. Er mwyn gwneud unrhyw newidiadau i reoliadau, bydd angen cynnal asesiad o'r effaith a fydd yn ystyried yr achos busnes yn ogystal â materion mewnol, gweithredol, technegol a thrawsffiniol. Caiff unrhyw newidiadau eu blaenoriaethu gan y bydd angen ymgynghori ynghylch pob un a'i raglennu i gael cymeradwyaeth gan Weinidog.

Credir y caiff llawer o achosion o wrthdaro yn y sector stryd gwaith eu hachosi gan y ffyrdd amrywiol y caiff y rheoliadau presennol eu dehongli, yn hytrach na chan wendid yn y ddeddfwriaeth. Felly, os mai canlyniad yr adolygiad fydd cadw'r rheoliadau fel y maent, bydd Llywodraeth Cymru yn mynd ati i lunio canllawiau ar y cyd â PAPC Cymru os bydd angen gwneud y rheoliadau'n fwy eglur.

Bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu'r gwaith a wnaed yn yr Alban mewn perthynas â difrod hirdymor ond dim ond i raddau bach iawn y mae'n berthnasol i'r rhwydwaith cefnffyrdd ar hyn o bryd.

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno y dylid ymestyn yr amserlen ar gyfer adolygu'r Rheoliadau.

Ymyriad 2: *Bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau y cyflwynir hysbysiadau ar gyfer yr holl waith (gan gynnwys ei gwaith ei hun) ar y cefnffyrdd yn unol â chanllawiau a rheoliadau o fis Mehefin 2016 ac yn annog awdurdodau priffyrdd eraill yng Nghymru i wneud yr un peth.*

	Effeithiol	Ddim yn effeithiol	Ddim yn gwybod
Awdurdodau priffyrdd a sefydliadau sy'n eu cynrychioli	8	1	2
Ymgymerydd statudol a sefydliadau sy'n eu cynrychioli	6		2
Partneriaid yn y diwydiant adeiladu a'r diwydiant gwaith stryd	8	1	
Unigolion	3	1	

Crynodeb o'r sylwadau

Ar y cyfan, cafwyd cryn dipyn o gefnogaeth i'r ymyriad hwn a chydabuwyd bod cyflwyno hysbysiadau ar gyfer pob darn o waith yn hanfodol er mwyn cynllunio a chydlynu'n effeithiol, ac awgrymodd rhai ymatebwyr y dylai hyn gynnwys gwaith ffordd gan drydydd partiön megis gwaith Adran 38 ac Adran 278. Hefyd, dylid ystyried gwaith na ellir cyflwyno hysbysiadau ar ei gyfer, megis digwyddiadau.

Yn ogystal â hynny, dywedodd yr ymatebwyr y dylai'r gwaith cydlynu ddigwydd ar lefel strategol ac y dylid ymgynghori'n well â rhanddeiliaid, yn arbennig lle bo llawer o gymunedau ar hyd y llwybr. Dylid hysbysu'r gwasanaethau brys yn gynnwys oherwydd y

goblygiadau o ran amseroedd ymateb o ganlyniad i oedi wrth waith ffordd a llwybrau gwyro cysylltiedig.

Teimlai sawl ymatebydd, oherwydd pwysigrwydd hyn, ei bod yn annigonol 'annog' awdurdodau i gyflwyno hysbysiadau ar gyfer eu gwaith eu hunain; dylai fod yn ofyniad rheoliadol a bydd tynhau'r gweithdrefnau hysbysu yn cau'r bylchau yn yr arferion presennol. Drwy beidio â gwneud hyn yn ofyniad rheoliadol, mae Llywodraeth Cymru yn rhoi negeseuon cymysg. Mae tystiolaeth eisoes ar gael o'r Cerdyn Sgorio Perfformiad Chwarterol sy'n dangos sut mae cwmnïau cyfleustodau ac awdurdodau lleol yn cyflwyno hysbysiadau ar gyfer gwaith.

Nododd rhai ymatebwyr y bydd gwella'r ffordd y caiff hysbysiadau eu cyflwyno yn gwella perfformiad fel y nodir gan y cerdyn sgorio perfformiad a bod yn rhaid gwneud y gwelliannau hyn cyn ystyried unrhyw newidiadau pellach i reoliadau. Bydd cyflwyno hysbysiadau ar gyfer pob darn o waith yn fodd i sicrhau cysondeb o ran mesur perfformiad, a nodwyd hefyd fod Comisiynydd Gwaith Ffordd yr Alban yn defnyddio hyn i fesur perfformiad.

Awgrymodd yr ymatebwyr y dylai Llywodraeth Cymru ymchwilio i gronfa ddata ganolog ar gyfer cyflwyno hysbysiadau.

Cododd sawl ymatebydd bryderon ynglŷn â'r mesur hwn. Nododd un ymatebydd y gall fod dryswch os caiff y gwaith o gyflwyno hysbysiadau a chydlynu cynlluniau cefnffyrdd ei rannu rhwng yr awdurdodau lleol ac Asiantau'r Cefnffyrdd.

Nododd un ymatebydd fod lleihad mewn cyllid gan Lywodraeth Cymru wedi lleihau gallu awdurdodau lleol i gyflwyno hysbysiadau ar gyfer eu gwaith eu hunain a bod angen mwy o gyllid er mwyn i Asiantau'r Cefnffyrdd allu cyflwyno hysbysiadau ar gyfer gwaith ar y rhwydwaith cefnffyrdd, yn ogystal â gwelliannau i system feddalwedd Llywodraeth Cymru, IRIS.

Argymhellodd yr ymatebwyr y dylai'r broses o gyflwyno hysbysiadau ar gyfer gwaith ffordd gael ei rhoi ar waith fesul cam.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod, er mwyn i'r broses o gyflwyno hysbysiadau fod yn llwyddiannus, bod angen cyflwyno hysbysiadau ar gyfer pob darn o waith, gan gynnwys gwaith Adran 38 ac Adran 278. Er nad ydynt yn ddarostyngedig i'r Ddeddf Rheoli Traffig na'r Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd, mae digwyddiadau'n broblem gynyddol ac mae angen ymchwilio i ddulliau hysbysu, er enghraifft cynnwys digwyddiadau blynyddol mewn Data Strydoedd Ychwanegol.

Mae angen i Lywodraeth Cymru ddysgu gwersi o ddigwyddiadau ar y rhwydwaith a bydd yn ceisio gwella'r dull cydlynu ar lefel strategol. Caiff copïau o'r adroddiad gwaith ffordd wythnosol eu hanfon i'r gwasanaethau brys, ond bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried p'un a oes angen dulliau pellach.

Ymchwiliwyd i'r syniad o Gomisiynydd Gwaith Ffordd ac fe'i gwrthodwyd ar y sail nad oes unrhyw dystiolaeth bod gwaith stryd sydd wrthi'n mynd rhagddo yn cael ei reoli'n wael o dan y trefniadau presennol. Byddai angen newidiadau sylweddol i'r ddeddfwriaeth bresennol ac nid yw costeffeithiolrwydd rôl o'r fath wedi cael ei brofi.

Mae mater y gronfa ddata ganolog wedi cael ei ystyried ond mae'n annhebygol o fod yn gosteffeithiol o ystyried faint y mae cwmnïau cyfleustodau ac awdurdodau lleol wedi'i fuddsoddi mewn datblygu a chynnal eu systemau presennol.

Nid yw Llywodraeth Cymru yn derbyn bod diffyg cyllid yn lleihau gallu awdurdodau lleol i gyflwyno hysbysiadau ar gyfer eu gwaith eu hunain. Mae dyletswydd ar awdurdodau lleol i gyflwyno hysbysiadau ar gyfer eu gwaith eu hunain yn unol â'r Ddeddf Rheoli Traffig ac, er bod y cyllid cyffredinol i awdurdodau lleol wedi lleihau, mae angen i'r awdurdodau lleol flaenoriaethu eu cyllid i gyflawni eu dyletswyddau statudol.

Ymyriad 3: *Bydd Llywodraeth Cymru yn diweddarau'r rhestr strydoedd ar gyfer y rhwydwaith cefnffyrdd (gan gynnwys Data Strydoedd Ychwanegol) yn fisol o fis Mehefin 2016 ac yn annog awdurdodau priffyrdd eraill yng Nghymru i wneud hyn hefyd.*

	Effeithiol	Ddim yn effeithiol	Ddim yn gwybod
Awdurdodau priffyrdd a sefydliadau sy'n eu cynrychioli	8	2	1
Ymgymerydd statudol a sefydliadau sy'n eu cynrychioli	6		2
Partneriaid yn y diwydiant adeiladu a'r diwydiant gwaith stryd	8	1	
Unigolion	2	2	

Crynodeb o'r sylwadau

Roedd cryn dipyn o gefnogaeth i'r mesur hwn ac roedd yr ymatebwyr yn cytuno y bydd o gymorth mawr i waith cynllunio a chyflenwi.

Dywedodd un ymatebydd y bydd yn bwysicach fyth sicrhau bod gwybodaeth am asedau yn gywir, o ystyried y bydd data ychwanegol ar gael o dan DTF8.1.

Awgrymodd yr ymatebwyr y byddai hyn yn ddangosydd perfformiad addas.

Dywedodd un ymatebydd, ni waeth pa system a ddefnyddir, y dylai fod un pwynt cyfeirio y dylai parti sydd â diddordeb allu ei ddefnyddio i gael gwybodaeth am unrhyw weithgareddau sy'n mynd rhagddynt neu sydd yn yr arfaeth ar unrhyw ran o'r rhwydwaith priffyrdd yng Nghymru.

Cododd sawl ymatebydd bryderon ynglŷn â'r ymyriad hwn gan awgrymu, oherwydd pwysigrwydd hyn, nad yw'n ddigonol 'annog' awdurdodau heb roi unrhyw ofyniad sylfaenol gorfodol. Hefyd, teimlai rhai ymatebwyr nad yw'r gofyniad yn ddigonol ac y dylai gynnwys yr holl ddata, e.e. dylai gwaith Adran 58 gael ei gynnwys ar y gofrestr er mwyn osgoi gwrthdaro ar ôl i'r gwaith ddechrau.

Nododd un ymatebydd fod angen adnoddau ac arweiniad.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r sylwadau a wnaed ac wedi ymgymryd â'r dasg o roi trefn ar y rhestr cefnffyrdd. Newidiodd asiantau'r cefnffyrdd yn llwyddiannus i ddilyn un cod gweithredu ar 4 Ebrill 2016 a bydd yn cyflawni'r diweddariadau yn ôl y bwriad. Maent yn cynnig penodi ceidwad i fod yn gyfrifol am reoli'r holl ddata cefnffyrdd.

Ymyriad 4: *Bydd Llywodraeth Cymru yn annog pob ymgymwrwr sy'n gweithio yng Nghymru ac awdurdodau priffyrdd i gyflawni lawrlwythiadau bob mis o'r 'hwb' cenedlaethol o fis Mehefin 2016.*

	Effeithiol	Ddim yn effeithiol	Ddim yn gwybod
Awdurdodau priffyrdd a sefydliadau sy'n eu cynrychioli	11		
Ymgymwrwr statudol a sefydliadau sy'n eu cynrychioli	8		
Partneriaid yn y diwydiant adeiladu a'r diwydiant gwaith stryd	8	1	
Unigolion	3	1	

Crynodeb o'r sylwadau

Cafodd yr ymyriad hwn ei gefnogi'n llawn gan yr ymatebwyr sy'n cynrychioli cwmnïau cyfleustodau ac mae eisoes yn cael ei roi ar waith gan rai cwmnïau cyfleustodau.

Rhagnodir hyn gan Adran 60 o'r Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd, ond ym marn rhai ymatebwyr nid oedd cwmnïau cyfleustodau yn bodloni'r gofyniad hwn. Argymhellir y dylai Llywodraeth Cymru gydweithio â Chonsesiynydd y Rhestr Strydoedd Genedlaethol i sicrhau bod y gofyniad yn cael ei fodloni.

Teimlai'r ymatebwyr y bydd hyn yn galluogi pob parti i gynllunio'n effeithiol.

Roedd yr ymatebwyr yn pryderu ynglŷn â'r amserlenni ac roedd un ymatebydd hefyd o'r farn nad oedd yr ymyriad yn ddigonol ac y dylid ceisio mwy o bwerau i gyflawni hyn.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r sylwadau a wnaed ac mae'n ymwybodol bod llawer o'r cwmnïau cyfleustodau eisoes yn cyflawni'r tasgau hyn. Bydd Llywodraeth Cymru yn cydweithio â Chonsesiynydd y Rhestr Strydoedd Genedlaethol i wella cydymffurfiaeth.

Ymyriad 5: Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda rhanddeiliaid i ganfod a oes achos busnes cadarn dros gyflwyno cynlluniau trwyddedau yng Nghymru erbyn mis Ebrill 2016.

*	Effeithiol	Ddim yn effeithiol	Ddim yn gwybod
Awdurdodau priffyrdd a sefydliadau sy'n eu cynrychioli	5	2	5
Ymgymerywyr statudol a sefydliadau sy'n eu cynrychioli	1	3	4
Partneriaid yn y diwydiant adeiladu a'r diwydiant gwaith stryd	8		1
Unigolion	2	2	

Crynodeb o'r sylwadau

Cafwyd ymateb cymysg i'r mesur hwn. Dywedodd yr ymatebwyr fod tystiolaeth o Loegr yn dangos bod cynlluniau sydd wedi'u dylunio'n dda ac sydd â'r nod o wella ansawdd y wybodaeth a ddarperir a lleihau presenoldeb ar ffyrdd y rhwydwaith mewn mannau allweddol ac ar adegau allweddol wedi helpu i wella dibynadwyedd o ran amser teithio ac ansawdd y wybodaeth a anfonir i awdurdodau. Dylai unrhyw gynllun ystyried defnyddio trwyddedau di-dâl lle bo'r gyrrwr yn gwella ansawdd data yn hytrach na lleihau presenoldeb ar y ffyrdd.

Cytunai'r ymatebwyr y dylai cynlluniau trwyddedau fod yn niwtral o ran cost ac y dylid adolygu'r achosion busnes ar gyfer cynlluniau yn Lloegr er mwyn canfod a yw'r amcanion wedi cael eu cyflawni.

Roedd un awdurdod lleol yn honni na ellir parhau i reoli'r rhwydwaith yn effeithiol yn yr hinsawdd ariannol bresennol.

Dywedodd yr ymatebwyr fod yn rhaid i bob darn o waith fod ar y gofrestr gwaith stryd ac y dylid arfer yr holl bwerau sydd eisoes yn bodoli er mwyn i drwyddedu weithio.

Nododd yr ymatebwyr y byddai buddiannau economaidd yn cael eu sicrhau drwy gynlluniau trwyddedau awdurdodau ac y byddai cyflwyno cynlluniau o'r fath yn fodd i gyflawni nodau fel diweddarau'r rhestr, ansawdd data, cyfathrebu, cydweithio ac ati, gyda baich y gost yn cael ei rannu gan y gymuned yn hytrach na bod y cynllun yn cael ei ariannu'n gyfan gwbl gan yr awdurdod.

Dywedodd yr ymatebwyr y byddai dull trwyddedu yn fuddiol gan nad yw taliadau A74 yn ddigon effeithiol i annog cwmnïau cyfleustodau i sicrhau bod gwaith yn cael ei gyflawni'n brydlon. Mae'r materion hyn yn achosi problemau teithio ar lwybrau sy'n sensitif o ran traffig.

Codwyd llawer o bryderon ynglŷn â'r mesur hwn.

Dywedodd rhai ymatebwyr y gellir sicrhau bod gwaith ffordd a gwaith stryd yn cael eu cydlynu'n effeithiol er mwyn sicrhau cyn lleied o broblemau teithio â phosibl a chodi safonau

am gost lawer llai gan ddefnyddio'r gyfundrefn hysbysu bresennol, wedi'i hategu gan fesurau gwirfoddol, fel Cod Ymddygiad Bryste. Nodwyd y dylai trwyddedau ond gael eu hystyried ar ôl:

1. Adolygu'r ffordd y caiff y ddeddfwriaeth bresennol ei rhoi ar waith a chydymffurfiaeth â hi (pob hyrwyddwr gwaith)
2. Sicrhau bod y ddeddfwriaeth bresennol yn cael ei defnyddio'n llawn
3. Adolygu cydymffurfiaeth â (2)
4. Canfod y rhesymau dros ddiffyg cydymffurfio
5. Tystiolaeth nad yw'r pwerau presennol yn effeithiol
6. Ystyried yr achos busnes dros Gynllun Trwyddedau wedi'i dargedu, a ategwyd gan ddata demograffig ar gyfer Cymru

Dywedodd yr ymatebwyr fod angen deall yn well y meini prawf a gaiff eu defnyddio i gadarnhau'r cyfiawnhad dros roi cynllun trwyddedau ar waith, y tu hwnt i'r gofynion deddfwriaethol presennol. Awgrymwyd y dylai Cymru adolygu Cod Ymddygiad Bryste er mwyn sicrhau bod yr holl ddulliau amgen ymarferol wedi cael eu hystyried. Nodwyd hefyd fod angen ymgynghori ymhellach er mwyn gweld a yw cynlluniau trwyddedau wedi gwneud gwahaniaeth.

Roedd yr ymatebwyr yn ofni y gall cost ychwanegol trwyddedau ac amodau cysylltiedig effeithio ar hyfywedd masnachol buddsoddi mewn asedau newydd gan gwmnïau cyfleustodau.

Roedd yr ymatebwyr yn amau nad oes i gynlluniau trwyddedau fudd a brofwyd.

Dywedodd un ymatebydd mai i'r rhwydwaith ffyrdd strategol y byddai trwyddedau'n fwyaf addas. Fodd bynnag, roedd y traffyrdd a'r cefnffyrdd deuol eisoes wedi'u dynodi'n 'strydoedd gwarchoddedig', gan olygu bod cyfyngiadau digonol arnynt, ac felly ceir amheuaeth p'un a fyddai trwyddedau'n arwain at unrhyw fudd ychwanegol. Felly, mae'n bosibl mai ar gyfer y rhwydwaith ffyrdd unffrwd y byddai trwyddedau'n fwyaf priodol.

Nododd cwmnïau cyfleustodau eu bod wedi wynebu problemau gydag awdurdodau lleol yn defnyddio gwahanol fathau o gynlluniau trwyddedau.

Dywedodd yr ymatebwyr nad oes prawf eto y bydd cynlluniau trwyddedau yn lleihau tagfeydd traffig.

Nododd rhai ymatebwyr fod y cyfundrefnau hysbysu presennol yn gweithio'n effeithiol ac y gellir sicrhau gwaith cydlynu rhagweithiol yn effeithiol drwy gyflwyno hysbysiadau a defnyddio'r pwerau presennol.

Dywedodd yr ymatebwyr fod trwyddedau'n achosi beichiau gweinyddol ychwanegol a chostau gormodol. Caiff cynlluniau trwyddedau eu llywio gan gostau yn hytrach nag ansawdd a threfniadau gweithredu.

Awgrymodd un ymatebydd y dylai Cymru fabwysiadu system yr Alban gyda chofrestr a rennir a chyfarfodydd ardal PAPC i drafod perfformiad, heriau ac ati.

Gofynnodd yr ymatebwyr am i ganllawiau gael eu llunio yn sgil yr anawsterau a'r costau y gall hyn eu hachosi i awdurdod lleol sy'n cyflawni ei waith ei hun.

Cododd yr ymatebwyr y posibilrwydd o ad-drefnu awdurdodau lleol yn dilyn Comisiwn Williams, a chynigiwyd y dylid oedi cyn cyflwyno cynlluniau trwyddedau nes bod manylion Comisiwn Williams yn hysbys.

Teimlai rhai ymatebwyr fod yr amserlenni'n heriol.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid yw'r ymateb cyfyngedig gan awdurdodau lleol yn rhoi'r cylch gwaith i Lywodraeth Cymru hyrwyddo cynlluniau trwyddedau i Gymru. Ni fydd Llywodraeth Cymru felly'n newid ei safbwynt presennol, sef ystyried unrhyw geisiadau gan awdurdodau lleol os byddant yn dymuno gwneud cais i Weinidogion Cymru.

Gwnaeth Llywodraeth Cymru barhau â'r gofyniad i Weinidogion Cymru gymeradwyo unrhyw gais fel y gellid dysgu gwersi o Loegr a datblygiadau mewn cynlluniau trwyddedau a asesir er mwyn canfod eu perthnasedd i Gymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y sylwadau ac yn ailbwysleisio y bydd yn rhaid i unrhyw gais am gynllun trwyddedau ddilyn proses WeITAG sy'n ei gwneud yn ofynnol dadansoddi pob opsiwn yn unol â'r model pum achos busnes. Ar gam achos strategol WeITAG, bydd angen i bob opsiwn a godir gan y cwmnïau cyfleustodau gael ei werthuso cyn i unrhyw benderfyniad gael ei wneud i symud yr opsiynau ymlaen i'r cam achos busnes amlinellol.

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn bod yr amserlenni'n rhy dynn a bydd y cyfnod ar gyfer ystyried yr achos busnes yn cael ei ymestyn

Ymyriad 6: *Bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu canllawiau ar gynlluniau trwyddedau yng Nghymru erbyn mis Ebrill 2017, os canfyddir mai cynlluniau trwyddedau yw'r ffordd orau o wella'r gwaith o gynllunio, cydlynu a chyflawni gwaith ffordd a gwaith stryd.*

	Effeithiol	Ddim yn effeithiol	Ddim yn gwybod
Awdurdodau priffyrdd a sefydliadau sy'n eu cynrychioli	9		2
Ymgymrwyr statudol a sefydliadau sy'n eu cynrychioli	2	3	3
Partneriaid yn y diwydiant adeiladu a'r diwydiant gwaith stryd	8		1
Unigolion	2		2

Crynodeb o'r sylwadau

Er i'r mesur gael ymateb cymysg mewn perthynas â chyflwyno trwyddedau, cafwyd cryn dipyn o gefnogaeth i'r mesur hwn ar y cyfan, os caiff cynlluniau trwyddedau eu cyflwyno. Dywedodd yr ymatebwyr y dylai'r canllawiau gael eu llywio gan y gwersi a ddysgwyd o waith awdurdodau eraill er mwyn lleihau baich y gost.

Roedd un ymatebydd yn gobeithio y bydd y gwaith a wneir ar hyn o bryd gan awdurdod lleol yng Nghymru o gymorth wrth ddatblygu canllawiau.

Nododd yr ymatebwyr fod yn rhaid profi'r achos busnes a chynnwys ymgwymerwyr statudol.

Roedd yr ymatebwyr yn cydnabod bod cod ymarfer i Gymru gyfan ar gyfer trwyddedau yn fuddiol gan fod cwmnïau cyfleustodau wedi wynebu problemau gydag awdurdodau lleol yn defnyddio gwahanol fathau o gynlluniau trwyddedau. Rhaid i unrhyw ganllawiau o'r fath fod yn addas ac yn briodol.

Nododd yr ymatebwyr fod angen canllawiau penodol ar gyfer awdurdodau lleol ac asiantau'r cefnffyrdd.

Dywedodd y cwmnïau cyfleustodau fod ganddynt brofiad o Loegr a fydd o gymorth wrth ddatblygu canllawiau priodol a chefnogi elfen o gysondeb rhwng cynlluniau trwyddedau sydd eisoes ar waith a'r rhai sydd yn yr arfaeth. Gofynnwyd am gael sicrhau bod pob cwmni cyfleustodau sy'n gweithio yng Nghymru yn cyfrannu'n weithredol at lunio unrhyw ganllawiau.

Cododd yr ymatebwyr bryderon ynglŷn â'r mesur hwn gan nodi y credir nad cynllun trwyddedau yw'r opsiwn gorau i Gymru o reidrwydd.

Nododd yr ymatebwyr fod y gyfundrefn hysbysu bresennol a'i darpariaethau eisoes yn galluogi awdurdod i bennu ble a phryd y bydd gwaith yn cael ei gyflawni.

Cyfeiriodd yr ymatebwyr at God Ymddygiad Bryste a phrosiect 'Heineken' Swydd Stafford sy'n annog cydlynu, gan gynnwys cydleoli staff awdurdodau lleol a chwmnïau cyfleustodau i gynllunio gwaith ar y cyd.

Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylai cynlluniau trwyddedau gael eu cyfyngu i gefnffyrdd yn unig.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Ni wnaeth Llywodraeth Cymru gyhoeddi Cod Ymarfer pan gyflwynwyd y Rheoliadau ar gyfer Trwyddedau yn 2009. Mae angen drafftio Cod Ymarfer rhag ofn i awdurdod lleol fod mewn sefyllfa lle y gall roi cynllun trwyddedau ar waith. Bydd y broses hon yn cyd-reddeg â gwaith awdurdod lleol i ddatblygu ac asesu achos busnes. Ni fydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi Cod Ymarfer nes bod awdurdod lleol mewn sefyllfa i roi cynllun trwyddedau ar waith.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd cael profiad o gynlluniau yn Lloegr a bydd yn sefydlu gweithgor i ddatblygu Cod Ymarfer drafft. Gofynnir i gynrychiolwyr o'r diwydiant cyfleustodau sydd â phrofiad o gynlluniau trwyddedau i ymuno â'r gweithgor. Mae Llywodraeth Cymru yn anelu at ddatblygu templed i Gymru fel y bydd unrhyw awdurdod lleol sy'n gweithredu cynllun trwyddedau yng Nghymru yn dilyn templed cyffredin o gynllun.

Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu system trefnu lle ar y ffyrdd a bydd yn adolygu'r angen am gynllun trwyddedau ar y rhwydwaith cefnffyrdd.

Ymyriad 7: *Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Phwyllgor Awdurdodau Priffyrdd a Chyfleustodau Cymru i ddatblygu cod ymarfer gwirfoddol er mwyn gwella'r cydweithio ar brosiectau mawr gyda'r nod o sicrhau bod pob rhanddeiliad yn ymrwymo iddo erbyn mis Medi 2016.*

	Effeithiol	Ddim yn effeithiol	Ddim yn gwybod
Awdurdodau priffyrdd a sefydliadau sy'n eu cynrychioli	6	2	3
Ymgymrwyr statudol a sefydliadau sy'n eu cynrychioli	7		1
Partneriaid yn y diwydiant adeiladu a'r diwydiant gwaith stryd	8	1	
Unigolion	2	1	1

Crynodeb o'r sylwadau

Cafwyd ymatebion cymysg i'r ymyriad hwn. Er bod yr ymatebwyr yn cefnogi'r fenter hon, cydnabuwyd y bydd angen ymrwymiad ac arweinyddiaeth gan hyrwyddwyr gwaith er mwyn rhoi unrhyw fenter ar waith.

Nododd yr ymatebwyr fod angen rhoi sylw arbennig i waith cynllunio ymlaen llaw ac ymgysylltu cynnar ar y cam dylunio er mwyn sicrhau amcangyfrifon cost a rhaglenni cywir.

Cytunai'r ymatebwyr y dylai cod gwirfoddol helpu i atal costau a phroblemau teithio cynyddol a sicrhau gwelliannau i waith dargyfeiriol.

Awgrymwyd y dylai cod gwirfoddol gael ei ddatganoli i bob darn o waith sy'n debyg i God Ymddygiad Bryste.

Dywedodd y NJUG fod mentrau eisoes ar waith: Gweledigaeth NJUG ar gyfer Gwaith Stryd, Cod Ymddygiad HAUC(UK) ac Egwyddorion Cydweithio Da NJUG sy'n hyrwyddo astudiaethau achos sy'n dangos arfer da.

Er gwaethaf rhai pryderon a godwyd gan yr ymatebwyr, dywedodd y cwmnïau cyfleustodau eu bod yn gefnogol ac y byddant yn sicrhau dealltwriaeth o ofynion penodol eu sector.

Ymhlith y pryderon a godwyd, dywedodd yr ymatebwyr nad yw cynllunio hirdymor bob amser yn bosibl am nad yw rhai gofynion cynllunio yn hyblyg.

Teimlai rhai ymatebwyr nad yw cytundeb gwirfoddol yn ddigon cadarn ac y gall fod problemau wrth sicrhau bod pawb yn ymrwymo iddo. Methodd ymgeisiau blaenorol yn 1998 a 2002/2003 oherwydd diffyg cefnogaeth gan y cwmnïau cyfleustodau telathrebu. Roedd yr anghytundeb hwn yn seiliedig ar brif nodau'r ddogfen yn hytrach na'r cynnwys. Argymhellir mai adolygiad o'r Cod Ymarfer ar gyfer Gwaith Dargyfeiriol ynghyd â fframwaith o Reoliadau OS ategol sy'n rhoi'r cyfle gorau i gydweithio a datrys y problemau parhaus yn ymwneud â threfniadau ariannol a thaliadau.

Teimlai'r ymatebwyr mai un her fawr yw'r gwahanol ffynonellau cyllid sy'n anghyson â'i gilydd. Awgrymwyd y byddai mwy o gyfle i gydweithio petai Llywodraeth Cymru yn cytuno ar gynlluniau cyllido pum mlynedd. Dywedwyd bod terfynau amser presennol Llywodraeth Cymru ar gyfer gwneud cais a gwario yn gwbl groes i waith cynllunio hirdymor effeithiol ac y dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno fframwaith ar gyfer darpariaeth gyllidebol sy'n galluogi gwaith cynllunio hirdymor effeithiol. Er mwyn datrys hyn, awgrymodd yr ymatebwyr y dylai Llywodraeth Cymru glustnodi cyllid ar gyfer gwaith cynllunio dyletswyddau rheoli rhwydwaith.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Bydd Llywodraeth Cymru yn sefydlu gweithgor o fewn PAPC Cymru i ddatblygu cod ymarfer. Cyfeirir at y gwaith y mae NJUG eisoes wedi'i wneud a chaiff ei ymgorffori lle bynnag y bo'n briodol.

Bydd Llywodraeth Cymru yn symud ymlaen ar sail cytundeb gwirfoddol, ond mae'n cydnabod y sylw nad yw'r math hwn o gytundeb yn ddigon cadarn o bosibl a bod dau ymgais blaenorol wedi methu. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru am ymchwilio i'r mater hwn er mwyn deall pam yn union y methodd hyn o'r blaen a nodi'r rheswm er mwyn canfod p'un a yw camau pellach yn briodol.

Ymyriad 8: *Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Phwyllgor Awdurdodau Priffyrdd a Chyfleustodau Cymru i wella ansawdd y wybodaeth am waith ffordd a gwaith stryd sydd ar gael i'r cyhoedd a busnesau erbyn 2017.*

	Effeithiol	Ddim yn effeithiol	Ddim yn gwybod
Awdurdodau priffyrdd a sefydliadau sy'n eu cynrychioli	10	1	
Ymgwymerwyr statudol a sefydliadau sy'n eu cynrychioli	8		
Partneriaid yn y diwydiant adeiladu a'r diwydiant gwaith stryd	9		
Unigolion	2	1	1

Crynodeb o'r sylwadau

Roedd cryn dipyn o gefnogaeth i'r mesur hwn; fodd bynnag, nododd sawl ymatebydd fod ansawdd y wybodaeth yn dibynnu ar gyflwyno hysbysiadau ar gyfer pob darn o waith a chofnodi pob darn o waith ar y gofrestr gwaith stryd. Awgrymwyd y dylai Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol sicrhau bod eu cynlluniau buddsoddi cyfalaf, yn enwedig gosod wyneb newydd ar ffordd, ar gael i bob hyrwyddwr gwaith cyn gynted â phosibl ac o leiaf 12 mis cyn i'r gwaith ddechrau.

Dywedodd yr ymatebwyr fod dull gweithredu cyson a phwylllog mewn perthynas â phob thema sy'n gysylltiedig â data yn hanfodol ac, o ystyried y defnydd cynyddol a wneir o'r

cyfryngau cymdeithasol, y dylai'r wybodaeth gael ei rheoli a'i darparu drwy brotocolau y cytunwyd arnynt.

Nododd yr ymatebwyr fod yn rhaid i unrhyw fentrau gael eu llywio o'r gwaelod i fyny a bod model Elgin o gymorth gyda hyn.

Dywedodd yr ymatebwyr sy'n cynrychioli cwmnïau cyfleustodau fod llawer ohonynt eisoes yn gwneud hyn drwy apiau cyfathrebu a gwefannau, a bod Gwobrau Cyfathrebu NJUG yn cynnig astudiaethau achos.

Nododd NJUG ei fod yn llunio dogfen Egwyddorion Cyfathrebu Da a fydd yn helpu i gyflawni'r ymyriad hwn.

Roedd sawl ymatebydd yn pryderu ynglŷn ag adnoddau gan awgrymu bod angen rhagor o fuddsoddiad gan Lywodraeth Cymru er mwyn galluogi awdurdodau lleol i fwrw ymlaen â hyn.

Dywedodd un ymatebydd y bydd cyflwyno cynlluniau trwyddedau yn fodd i sicrhau gwelliannau i wybodaeth.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid er mwyn galluogi awdurdodau lleol i gael y fersiwn sylfaenol o Elgin. Mae hyn yn golygu bod modd casglu gwybodaeth ar system ganolog, ond mae i Elgin ei gyfyngiadau gan mai dim ond gwaith sy'n mynd rhagddo sydd i'w weld.

Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried astudiaethau achos a'r gwaith y mae NJUG eisoes wedi'i wneud.

Gwella Safon Sgiliau a Hyfforddiant yn y Sector

Ymyriad 9: *Byddwn yn cynnal ymarfer ymgynghori yn ystod 2016 i ganfod a yw'r drefn hyfforddiant bresennol yn effeithiol ar gyfer sicrhau bod safonau'n cael eu cynnal, neu a fydd cyflwyno proses ailasesu ffurfiol yn codi safonau.*

*	Effeithiol	Ddim yn effeithiol	Ddim yn gwybod
Awdurdodau priffyrdd a sefydliadau sy'n eu cynrychioli	9	1	1
Ymgymerydd statudol a sefydliadau sy'n eu cynrychioli	8		
Partneriaid yn y diwydiant adeiladu a'r diwydiant gwaith stryd	7	1	2
Unigolion	2	1	1

Crynodeb o'r sylwadau

Roedd yr ymatebwyr yn cefnogi'r mesur hwn, gan nodi bod manteision i fod yn gyson â Lloegr, yn enwedig mewn perthynas â gweithio trawsffiniol. Dywedwyd bod tair system ar waith ar hyn o bryd, sef Cymru, Lloegr a'r Alban, ac y byddai newid i fod yn gyson â Lloegr yn cael ei groesawu.

Nododd yr ymatebwyr fod yn rhaid i unrhyw newid godi safonau i'r holl bersonél sy'n gweithio ar y rhwydwaith ffyrdd.

Cododd sawl ymatebydd bryderon ynglŷn â'r mesur hwn mewn perthynas â'r goblygiadau ariannol y mae'n rhaid eu cydnabod, a dywedwyd y bydd angen rheoli'r newid diwylliannol a chytuno ar gyfnod amnest rhesymol er mwyn i'r newidiadau allu cael eu gwneud.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno bod rhesymau teilwng dros gysoni hyfforddiant ac achrediad â Lloegr am fod Lloegr mor agos ac am fod llawer o'r cwmnïau cyfleustodau yn gweithio'n drawsffiniol. Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal ymgynghoriad o dan weinyddiaeth newydd y Cynulliad yn cwmpasu mater cydymffurfiaeth â'r UE, p'un a ddylid cyflwyno proses ailasesu i Gymru a chysoni â Lloegr ar gyfer yr unedau cymwysterau a'r cerdyn Gwaith Stryd newydd.

Hyrwyddo Diwylliant o Welliant Parhaus

Ymyriad 10: *Bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu mesur argaeledd ar gyfer y rhwydwaith cefnffyrdd erbyn mis Ebrill 2016 ac mae'n annog pob awdurdod strydoedd arall yng Nghymru i wneud yr un peth.*

	Effeithiol	Ddim yn effeithiol	Ddim yn gwybod
Awdurdod Priffyrdd	7	2	2
Ymgymerydd Statudol	3		5
Y Diwydiant Adeiladu a'r Diwydiant Gwaith Stryd	8	1	
Unigolion	2	2	

Crynodeb o'r sylwadau

Cafwyd cefnogaeth gref gan yr ymatebwyr i ymgais i ddeall argaeledd y rhwydwaith ac ystyrir mai asesu effeithiolrwydd swyddogaethau rheoli'r rhwydwaith yw hyn. Awgrymodd un ymatebydd y dylai'r mesur argaeledd ar gyfer y rhwydwaith gael ei ymestyn i gynnwys mesur cydnerthedd ar gyfer y rhwydwaith, e.e. achosion o lifogydd, a all bennu lleoliad a chynllun gwelliannau seilwaith.

Dywedodd un ymatebydd y gallai'r mesurau roi syniad o'r oedi y gellir ei osgoi wrth gyflawni ymyriadau drwy fonitro llif y traffig cyn ac ar ôl, ac y dylid ystyried hyn. Gallai hyn hefyd roi syniad o allyriadau carbon.

Hefyd, dywedodd sawl ymatebydd y dylai nifer y diwrnodau a arbedir drwy gydweithio a chydlynu'n well gael ei mesur ac y byddai hynny'n dangos i ba raddau y mae'r cod gwirfoddol ar gydweithio yn sicrhau canlyniadau. Dylai'r mesur argaeledd ar gyfer y rhwydwaith gael ei ymestyn i ffyrdd lleol gan y bydd y rhan fwyaf o'r gwaith ffordd a gwaith stryd yn digwydd ar y ffyrdd hyn.

Cododd sawl ymatebydd bryderon ynglŷn ag ymarferoldeb ac effeithiolrwydd mesur argaeledd y rhwydwaith ar gyfer ffyrdd lleol a chwestiynwyd gwerth gwirioneddol y data a gesglir hefyd. Argymhellwyd y dylid llunio canllawiau.

Roedd un ymatebydd o'r farn nad oedd yr ymyriad yn ddigonol ac y dylid ceisio mwy o bwerau i gyflawni hyn.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r sylwadau a wnaed a bydd yn gweithio gyda Rheolwyr Ardal y Cefnffyrdd i adolygu'r data a gesglir ac asesu eu perthnasedd, ac yn ystyried systemau ar gyfer canfod cydnerthedd y rhwydwaith.

Ymyriad 11: *Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Phwyllgor Awdurdodau Priffyrdd a Chyfleustodau Cymru i ddatblygu dull "cerdyn sgorio cytbwys" ar gyfer mesur perfformiad sefydliadau yng Nghymru gyda'r nod o sicrhau bod pob rhanddeiliad yn ymrwymo iddo erbyn mis Ebrill 2017.*

	Effeithiol	Ddim yn effeithiol	Ddim yn gwybod
Awdurdod Priffyrdd	11		
Ymgymerydd Statudol	3		5
Y Diwydiant Adeiladu a'r Diwydiant Gwaith Stryd	9		
Unigolion	2	1	1

Crynodeb o'r sylwadau

Cafwyd cryn dipyn o gefnogaeth i'r ymyriad hwn a dywedodd yr ymatebwyr y dylai'r cerdyn sgorio fod yn syml ac yn berthnasol ac ysgogi'r ymddygiadau cywir i gyflawni'r amcanion a nodir.

Roedd yr ymatebwyr yn cydnabod y bydd yn sicrhau bod yr awdurdodau lleol yn cyflawni eu dyletswydd rheoli rhwydwaith ac yn gwerthuso effeithiolrwydd.

Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylai Cymru ymchwilio i rôl Comisiynydd Gwaith Ffordd mewn perthynas â monitro perfformiad.

Cododd sawl ymatebydd bryderon ynglŷn â'r mesur hwn, gan nodi bod perfformiad eisoes yn cael ei gofnodi ar gerdyn sgorio Cymru a Lloegr ac y bydd angen cyllid os bwriedir symud i ffordd o'r system bresennol.

Dywedodd un ymatebydd y bydd yr Alban yn ymuno â cherdyn sgorio Cymru a Lloegr gan ei wneud yn adnodd dangosydd perfformiad cenedlaethol ac felly na ddylai Cymru ddatblygu system ar wahân.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid yw Llywodraeth Cymru yn gweld gwerth mewn datblygu cerdyn sgorio ar wahân i Gymru ar hyn o bryd a bydd yn gweithio gyda Geoplace i sicrhau y gellir echdynnu data ar Gymru yn effeithiol o'r cerdyn sgorio cenedlaethol.

Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried bod y wybodaeth ar y cerdyn sgorio yn hanfodol er mwyn canfod y lefel o gydymffurfiaeth yng Nghymru a bydd yn hyrwyddo hyn yng Nghymru er mwyn sicrhau bod awdurdodau lleol yn cymryd rhan.

Ymchwiliwyd i'r syniad o Gomisiynydd Gwaith Ffordd ac fe'i gwrthodwyd y tro hwn ar y sail nad oes unrhyw dystiolaeth y byddai'r fath newid yn gwella'r trefniadau presennol yn sylweddol. Byddai angen newidiadau sylweddol i'r ddeddfwriaeth bresennol ac nid yw costeffeithiolrwydd rôl o'r fath wedi cael ei brofi.

Yn ogystal â'r sylwadau ar yr 11 o ymyriadau, gwnaeth yr ymatebwyr hefyd sylwadau ar agweddau eraill ar waith stryd a rheoli traffig.

Sylwadau ychwanegol

Sylw: Mae NJUG wedi gweithio gyda'r Gymdeithas Llywodraeth Leol (CLIL) i ddatblygu'r ddogfen "What Good Looks Like", sy'n nodi egwyddorion arfer da ar gyfer sicrhau bod arfer da hanfodol yn cael ei sicrhau mewn modd effeithiol ac effeithlon, ac wedyn ei rhoi ar waith.

Mae Gweledigaeth NJUG ar gyfer Gwaith Stryd yn amlinellu saith congfaen y mae NJUG a'i aelodau yn eu hyrwyddo.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Mae gan Lywodraeth Cymru ddiddordeb mewn prosiectau o'r fath a bydd yn ceisio ymgorffori'r egwyddorion hyn lle y bo'n briodol.

Sylw: Mynegodd sawl cwmni cyfleustodau bryder ynglŷn ag effaith Comisiwn Williams, a fydd yn newid y dirwedd awdurdodau yng Nghymru yn sylweddol. Byddai'n ymddangos yn rhesymol cwblhau'r newid sylweddol hwn cyn ystyried y posibilrwydd o gyflwyno cynlluniau trwyddedau yng Nghymru.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddatblygu'r ymyriadau o fewn y Dull Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Ffordd a Gwaith Stryd yng Nghymru, ond ni fydd yn cyhoeddi mesur penodol yn derfynol nes bod canlyniad Comisiwn Williams yn hysbys os effeithir yn uniongyrchol ar y mesur hwnnw.

Sylw: Ni chaiff yr holl broblemau eu creu gan waith ar y rhwydwaith, ond gall damweiniau ac achosion o dorri i lawr achosi tagfeydd anferth yn hawdd. O ganlyniad i natur linol 'o'r Gogledd i'r De' rhwydwaith De-ddwyrain Cymru, heb lawer o gysylltiadau o'r Dwyrain i'r Gorllewin, bydd llif y traffig yn arafu'n fawr mewn dim o dro. Byddai'n ymddangos bod y rhan fwyaf o lwybrau yn agos at fod yn llawn, neu'n orlawn, ar adegau sensitif o ran traffig. Gall damweiniau ar y draffordd o amgylch Casnewydd achosi problemau traffig a thagfeydd traffig hyd at tua 30 milltir i ffwrdd. Gall digwyddiadau cyhoeddus yng Nghaerdydd fel cyngherddau neu gemau rygbi arwain at dagfeydd traffig 30 milltir o hyd.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Mae Llywodraeth Cymru yn monitro'r traffig yn barhaus drwy'r Canolfannau Rheoli Traffig ac mae'n datblygu mentrau i ddelio â digwyddiadau ar y rhwydwaith. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y sylw hwn a bydd yn ei gynnwys yn yr adolygiad sy'n mynd rhagddo.

Sylw: Er bod swyddogion traffig yn cael eu cyflogi ar y rhwydwaith cefnffyrdd, a oes unrhyw bosibilrwydd y gallant gyflawni ymyriadau ar y rhwydwaith prif ffyrdd?

Ymateb Llywodraeth Cymru: Bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu ei chynlluniau ar gyfer rheoli digwyddiadau er mwyn ystyried y rhyngwynebau â'r rhwydwaith awdurdodau lleol, ond gall swyddogion traffig ond weithredu ar y rhwydwaith y mae Llywodraeth Cymru yn awdurdod traffig arno.

Sylw: A fyddai ysbïwr yn yr awyr, neu system fel Elgin neu Google, yn gallu canfod union leoliad tagfeydd a galluogi swyddogion i gael eu hanfon yno? (Yn ddiweddar, torrodd bws i lawr mewn un ardal awdurdod lleol gan achosi tagfeydd traffig am tua phum awr ac am filltiroedd o'i amgylch).

Ymateb Llywodraeth Cymru: Mae'r sylw hwn wedi cael ei nodi. Ar hyn o bryd, mae'r system ddrud o gamerâu teledu cylch cyfyng sy'n gysylltiedig â'r Canolfannau Rheoli Traffig, ynghyd â gwybodaeth a gesglir o'r cyfryngau cymdeithasol, yn galluogi Swyddogion Traffig i gael eu hanfon i ddigwyddiadau ar y rhwydwaith.

Sylw: Mae tagfeydd eraill ar y rhwydwaith yn deillio o waith a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Mae angen i'r gwaith hwn gael ei gydlynu ar lefel strategol, nid dim ond ar lefel leol. Yn aml, bydd y proffiliau cyllido yn ei gwneud yn ofynnol i waith mewn ardal gael ei wneud ar adegau tebyg a fydd yn awgrymu bod y cyfyngiadau nid yn unig yn gysylltiedig â'r priffyrdd ond hefyd wedi'u creu gan gyfrifyddiaeth.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried ffyrdd o wella ei dull o gydlynu, o fewn ei strwythur timau ac o fewn y feddalwedd rheoli cynlluniau.

Sylw: Byddai'n ymddangos bod y gwelliannau hyn mewn cyd-destun o gynnydd parhaus mewn niferoedd cerbydau sy'n creu ei sail resymegol ei hun dros gyfyngu ar faint o amser y caiff gwaith cynnal a chadw parhaus ei wneud ar y ffyrdd.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y sylw hwn a bydd yn cyfeirio at feysydd polisi eraill sy'n effeithio ar ddefnydd o gerbydau.

Sylw: Rydym yn rhagweld bod y rhwydwaith cefnffyrdd fel arfer yn gallu derbyn traffig wedi'i ddadleoli o rwydweithiau awdurdodau lleol ond, yn amlwg, nid yw rhwydweithiau awdurdodau lleol yn gallu derbyn traffig wedi'i ddadleoli o'r rhwydwaith cefnffyrdd. Mae'r problemau hyn yn waeth yn ystod oriau brig a chyfnodau cyn neu ar ôl digwyddiadau difrifol. A oes unrhyw fwiad i agor lleiniau caled traffyrdd i draffig fel y mae Highways England wedi'i wneud?

Ymateb Llywodraeth Cymru: Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried trefniadau rheoli'r M4 ac mae prosiectau'n mynd rhagddynt ganddi sy'n defnyddio terfynau cyflymder newidiol. Fodd bynnag, nid ydym yn cynnig ymestyn hyn i statws traffordd glyfar gyda'r llain galed ar agor i draffig ar hyn o bryd, oherwydd y cyfyngiadau ar y rhwydwaith presennol. Yn anffodus, mae'r ardaloedd a allai gael budd o lonydd ychwanegol fel arfer yn rhai sydd â lleiniau caled bylchog (M4 Casnewydd) neu gul (A470), neu ddim llain galed o gwbl (A55).

Sylw: A ellid gosod byrddau matrices y tu allan i'r rhwydwaith cefnffyrdd er mwyn tynnu sylw at ffyrdd lleol gorlawn a llwybrau amgen posibl?

Ymateb Llywodraeth Cymru: Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn gweithio ochr yn ochr ag awdurdodau cyfagos sydd ag Arwyddion Negeseuon Newidiol ac yn rhannu unrhyw wybodaeth y gellir ei defnyddio i roi rhybudd ymlaen llaw i fodurwyr sy'n nesáu at y cefnffyrdd. Hefyd, mae darlledwyr y cyfryngau wedi'u lleoli yn ein Canolfannau Rheoli Traffig (Caerdydd) sy'n golygu bod modd rhoi bwletinau radio prydlon i ddefnyddwyr ffyrdd, lle bynnag y bônt ar y pryd.

Sylw: A oes unrhyw dechnoleg ffonau clyfar ar gael i helpu gyda gwybodaeth ond nad yw'n achosi perygl i yrwyr?

Ymateb Llywodraeth Cymru: Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu ap (Traffig Cymru) ar gyfer dyfeisiau Android ac Apple. Fodd bynnag, fe'i bwriedir i gael ei ddefnyddio cyn teithio

neu gan deithwyr heblaw'r gyrrwr. Mae mater defnyddio ffonau clyfar wrth yrru y tu hwnt i'n maes cyfrifoldeb.

Sylw: Mae ein hawdurdod wir yn pryderu am safon a dibynadwyedd gwaith i adfer ffosydd cwmnïau cyfleustodau ar ei rwydwaith. Mae'n ystyried na allwn golli golwg ar y mater hwn o ran sicrhau bod gennym syniad da o faint y broblem ac mae'n argymhell y dylid ymchwilio i ddifrod hirdymor yn sgil gwaith cwmnïau cyfleustodau.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r sylw hwn a bydd yn asesu'r gwaith a wnaed yn yr Alban ar ganfod difrod hirdymor.

Sylw: Gallai Llywodraeth Cymru ystyried datblygu porth cynllunio gwaith, i'w ddefnyddio gan gontractwyr bach nad ydynt yn aelodau o ETON, neu i'w defnyddio mewn contractau nad ydynt ar gyfer gwaith stryd traddodiadol. Argymhellir y dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Geoplace ar hyn, er mwyn canfod a ellid cynnwys hyn mewn porth cynnal data y credir bod y sefydliad hwn yn ei ddatblygu ar gyfer cynnal data rhestrau a System Gwybodaeth Ddaearyddol.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r sylw hwn.

Sylw: Mae angen codi ymwybyddiaeth o www.traffig.cymru er mwyn i ddefnyddwyr ffyrdd allu gweld pwy sy'n gyfrifol am gyflawni gwaith a chysylltu â nhw os bydd y gwaith yn rhedeg yn hwyr am unrhyw reswm.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r sylw hwn a bydd hyn yn cael ei ystyried pan gaiff y wefan ei datblygu yn y dyfodol. Fodd bynnag, gan mai Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am y wybodaeth, bydd y cyswllt cychwynol drwy'r ystafell reoli er mwyn sicrhau cysondeb y wybodaeth a ddarperir.

Sylw: Gobeithio na fydd dogfen y Dull Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Ffordd a Gwaith Stryd yng Nghymru yn cael ei rhyddhau â llun o arwydd cau ffordd ar y clawr. Ystyrir bod hyn yn rhoi'r argraff bod rhwydweithiau Cymru ar gau i draffig, yn hytrach na'u bod yn effeithlon ac yn llifo'n rhydd, sef, yn amlwg, yr hyn y mae'r Dull hwn yn ceisio ei gyflawni.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno a bydd yn adolygu'r ddogfen.

Sylw: Cododd un unigolyn bryder bod yn rhaid i awdurdodau osod wyneb newydd ar ffyrdd ar ôl gweithgarwch cwmnïau cyfleustodau ac y dylai gwaith gael ei warantu am bum mlynedd, a mwy na hynny ar draffyrdd.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Mae Llywodraeth Cymru yn aros am gyngor gan PAPC Cymru ar ddiweddarau'r Fanyleb ar gyfer Adfer Agorfeydd mewn Priffyrdd a bydd yn ymgynghori ynghylch fersiwn newydd i Gymru.

Sylw: Cododd un unigolyn bryder ynglŷn â chynnal a chadw'r M4, cyffordd 45 i gyffordd 49, a chyflwr gwael wyneb y ffordd.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Mae asiantau'r cefnffyrdd yn archwilio wyneb y ffordd yn rheolaidd, yn unol â'u contract cynnal a chadw. Caiff canlyniadau'r archwiliadau eu bwydo i

mewn i system rheoli asedau Llywodraeth Cymru, sy'n pennu blaenoriaethau'r rhaglen ar gyfer gosod wyneb newydd ar ffyrdd yn y dyfodol.